Anglesey Aluminium

Aliwminiwm Môn

I: Olygyddion Newyddion

Yn unol â'r rhestr cysylltiadau

Anglesey Aluminium Metal Limited
Aliwminiwm Môn

Penrhos Works, PO Box 4,
Holyhead, Anglesey LL65 2UJ.
United Kingdom
Tel: +44(0) 1407 725000

Gwaith Penrhos, Blwch Post 4,
Caergybi, Ynys Mon LL65 2UJ.
Deyrnas Unedig
Ffon: +44(0) 1407 725000

Aliwminiwm Môn

Hyrwyddo Gweithgaredd Economaidd ym Môn

Ar 30ain Medi 2009, rhoddwyd y gorau i weithrediadau mwyndoddi yn Aliwminiwm Môn (AM) oherwydd na allent gael cytundeb pŵer oedd yn fasnachol hyfyw. Yn anffodus, golygodd hyn y gwnaed dros 400 o weithwyr yn ddi-waith.

Yn Hydref 2009, dechreuodd AM weithrediadau fel cyfleuster ail-doddi ar gyfer cynhyrchu biledau i ddiwallu anghenion ei berchnogion, Rio Tinto Alcan a Kaiser. Mae'r busnes ail-doddi ar hyn o bryd yn cyflogi 60 o bobl a chyflogir tua 25 o bobl i ddarparu gwasanaethau cefnogi ar gyfer anghenion parhaus y safle gweithredol a'r ystâd. Yn ogystal, mae tîm o gyn-weithwyr yn parhau i ddatgomisiynu'r safle y disgwylir y bydd yn cymryd hyd at 18 mis i'w gwblhau. Dros y cyfnod hwn, bydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn parhau i fod y brif flaenoriaeth i ni.

Mae AM yn awyddus i ddatblygu etifeddiaeth gynaliadwy a buont yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn (CSYM) i greu cyflogaeth ac i symbylu gweithgaredd economaidd yn yr ardal. Enghraifft o'r gwaith hwn yw'r bartneriaeth llongau mordeithio rhwng CSYM, Llywodraeth Cymru a Stena, sy'n parhau i weithio'n dda gan y bu gan AM dros 20 o longau mordeithio'n angori yn y lanfa dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n bwysig i hyn barhau i ddatblygu gan ei fod o fudd i'r gymuned leol ac ehangach, ac felly'n cefnogi adfywio economaidd yng Ngogledd Cymru. Ar gyfartaledd, mae dros un rhan o dair o deithwyr mordeithiau yn ymweld â Chaergybi, sy'n dod â'i fanteision ei hun i'r dref.

Aethpwyd â'r Safle Gweithrediadol i'r farchnad ym Medi 2010 a arweiniodd i fynegi deuddeng datganiad o ddiddordeb gan brynwyr posibl.

O'r rhestr o ddeuddeg, lluniodd AM restr fer o dri chwmni y teimlasant fyddai'n creu cymaint â phosibl o gyfleoedd i gael cyflogaeth arall ac yn cynyddu gweithgaredd economaidd o fewn yr ardal, yn unol â nod ddyheadol AM o greu etifeddiaeth hirdymor gynaliadwy. Mae AM a'i gynghorwyr yn cael trafodaethau manwl parhaus gyda'r partïon ar y rhestr fer gyda golwg ar

ddewis y busnes mwyaf priodol i gyflawni'r nodau penodol. Oherwydd cytundebau cyfrinachol, ni allwn ddatguddio manylion ynghylch natur eu cynlluniau busnes arfaethedig ar hyn o bryd. Mae'r cynigion yn ymwneud â symiau sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf yn y safle a byddant yn dod â chyfleoedd i gael dros 500 o swyddi newydd yn yr ardal leol. Bydd unrhyw gytundeb a gyflawnir mewn perthynas â phrynu'r safle yn cynnwys darparu ar gyfer parhad busnes Ail-doddi Aliwminiwm Môn.

Ers rhoi'r gorau i weithgareddau mwyndoddi, mae AM wedi cefnogi mentrau busnes newydd a redwyd gan gyn-weithwyr, sydd wedi arwain i greu tua 20 o swyddi.

Mae AM yn berchen ardaloedd mawr o dir sy'n cynnwys tir amaethyddol a Pharc Arfordirol Penrhos ac, fel rhan o'i ymgyrch i hybu'r economi leol yng Nghaergybi, mae AM wedi arwyddo cytundeb opsiwn gyda chwmni datblygu twristiaeth a fydd yn caniatáu adeiladu man gwyliau hamdden, a fydd, os yn llwyddiannus, yn dod â 600 o swyddi llawn amser eraill i'r ardal. Yn ogystal, byddai hyn yn creu cyfleoedd i fusnesau lleol gan y bwriadant gael 70% o'u cynnyrch o oddi mewn i'r ardal leol.

Arweinir Land and Lakes gan Richard Sidi, a'r datblygwr eiddo Brian Scowcroft, Cadeirydd KPPL a pherchennog un o ystadau diwydiannol mwyaf y Gogledd Orllewin sef ystâd 400 erw Kingmoor Park yng Nghaerliwelydd (Carlisle).

Mae AM wedi ariannu cynnal a chadw a datblygu'r Parc Arfordirol ac wedi caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'r tir fel rhan o'u rhaglen Cysylltiadau Cymunedol ers 1969 pan ddaeth y safle'n weithredol.

Bwriad AM yw gweithio gyda Land & Lakes, CSYM a Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Parc Arfordirol a'r ardal o'i amgylch fel man gwyliau hamdden a fydd yn sicrhau buddiannau hirdymor i'r cyhoedd wrth ddarparu mwy o gyfleusterau cynaliadwy ar gyfer y gymuned leol ac ymwelwyr i'r ardal. Bu Land & Lakes mewn trafodaethau â Horizon Nuclear Power mewn perthynas â'r posibilrwydd o ddefnyddio peth o'r tir i ddarparu llety ar gyfer y gweithlu adeiladu niwclear; byddai hyn yn darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer y man gwyliau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae Land & Lakes yn ymwybodol o sut y defnyddiwyd y tir yn y gorffennol ac maent yn awyddus iawn i ddeall anghenion y gymuned leol a'r cyhoedd i sicrhau y gwneir y gorau 'r ardal hon. Dros yr ychydig wythnosau a misoedd nesaf, bydd Land & Lakes yn cynnal cyfres o ymgynghoriadau cyhoeddus i sicrhau fod trafodaeth agored gyda'r gymuned leol cyn cyflwyno cais cynllunio i CSYM ddechrau 2012.

Am unrhyw wybodaeth arall, cysylltwch â Gill Ronayne yn Aliwminiwm Môn ar 07921 024714 neu gill.ronayne@riotinto.com